Alison Ward
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Ionawr 2016

Annwyl Ms Ward

**Ymweliad monitro gan Estyn, 23-27 Tachwedd 2015**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Torfaen ar gyfer plant a phobl ifanc yn Hydref 2011, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod. Yn Chwefror 2013, fe wnaeth Estyn fonitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn deillio o'r arolygiad yn 2011 a barnodd fod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd annigonol. O ganlyniad, nodwyd bod angen mesurau arbennig ar yr awdurdod.

Cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygwyr cyswllt yn Estyn o ganlyniad, a chynhaliwyd ymweliadau monitro ym Mai 2014 a mis Hydref 2014. Ysgrifennom atoch chi gydag adborth yn dilyn pob un o'r ymweliadau hyn, a chynhaliwyd ymweliad monitro terfynol yn Nhachwedd 2015. Mae'r llythyr hwn yn adrodd am ganlyniad terfynol y monitro ôl-arolygiad gan Estyn.

Arweiniwyd tîm o bum arolygydd gan Farrukh Khan AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn y pum argymhelliad yn deillio o'r arolygiad yn 2011 a'r ddau argymhelliad ychwanegol yn deillio o'r ymweliad monitro yn 2013. Edrychodd arolygwyr ar y diffygion a nodwyd yn y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) hefyd.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, cadeirydd y bwrdd adfer, y prif weithredwr, uwch swyddogion a staff perthnasol eraill yn yr awdurdod, penaethiaid a staff perthnasol sy'n gweithio i'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, sef y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS). Craffodd arolygwyr ar ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn unol â phob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm am eu canfyddiadau wrthych chi, fel y prif weithredwr, ac fe gafodd personél allweddol eraill eu cynnwys yn ein trafodaethau.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/Fax 02920 446448
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Cyngor Sirol Torfaen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad yn 2011 ac ymweliad monitro llawn yn 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen mesurau arbennig ar yr awdurdod mwyach, ac mae'n ei dynnu o weithgarwch dilynol pellach.

## Cefndir

Yn dilyn ymweliad monitro gan Estyn yn 2013 pan roddwyd yr awdurdod yn y categori mesurau arbennig, cyhoeddwyd cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i sefydlu Bwrdd Adfer ("y bwrdd adfer"). Rôl y bwrdd adfer yw darparu cymorth a her i'r awdurdod wrth iddo fynd i'r afael ag argymhellion Estyn. Nododd y cyfarwyddyd y dylai'r awdurdod gydweithredu â'r bwrdd a rhoddodd bwerau cyfarwyddo wrth gefn i'r bwrdd.

Ers yr ymweliad monitro yn 2013, mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei wasanaeth addysg. Prif weithredwr cynorthwyol yw rheolwr llinell pennaeth y gwasanaethau addysg, ac fe gaiff ei gynorthwyo gan benodiadau ychwanegol pennaeth dysgu a phennaeth cymorth i ddisgyblion (ADY).

Sefydlodd yr awdurdod Fwrdd Gwella ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (BGPPhI) yn 2014. Yn briodol, bwriad y bwrdd hwn yw bod yn brif strwythur llywodraethu ar gyfer ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws yr holl bartneriaid yn Nhorfaen. Mae ganddo gynrychiolaeth o uwch aelodaeth ar lefel weithredol yr awdurdod lleol, ei bartneriaid a'i randdeiliaid, gan gynnwys pennaeth ysgol gynradd a phennaeth ysgol uwchradd.

Mae'r BGPPhI, y bwrdd adfer, aelodau etholedig ac uwch swyddogion yr awdurdod wedi cydweithio'n dda i feithrin gallu'r awdurdod i wella'i wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Argymhelliad 1: Codi safonau mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr ymweliad monitro llawn diwethaf yn Chwefror 2013, mae'r awdurdod lleol wedi gwella deilliannau ar gyfer ei ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson. Mae cyfradd y gwelliant yn Nhorfaen wedi bod yn gyflymach na chyfradd y gwelliant ledled Cymru ym mhob un o'r prif ddangosyddion, er bod hyn wedi bod o sylfaen isel iawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Methodd yr awdurdod fodloni unrhyw un o'i dri tharged wedi'u meincnodi yn 2015, ar ôl bodloni un o'i dargedau yn 2014 a 2013 fel ei gilydd.

Yn 2015, mae perfformiad cyffredinol ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ychydig islaw meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn welliant nodedig ers adeg yr arolygiad gwreiddiol.

Mae perfformiad ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n gyflymach na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae perfformiad islaw'r cyfartaledd ar draws yr holl brif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r cynnydd a wna disgyblion o'r ysgol gynradd hyd ddiwedd yr ysgol uwchradd wedi gwella yn y prif ddangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, fel trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Fodd bynnag, mae cynnydd disgyblion ar gyfer y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio yn parhau i fod gryn dipyn yn llai na'r disgwyl o gymharu â disgyblion tebyg yng Nghymru. Mae hyn wedi bod yn wir ers adeg yr arolygiad gwreiddiol.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda yng nghyfnod allweddol 4 er 2012. Yn 2015, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y disgyblion hyn yng Nghymru. Ers yr arolygiad diwethaf, mae perfformiad merched a bechgyn wedi cynyddu ar yr un gyfradd yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn 2015, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi ehangu'n sylweddol. Mae'r bwlch hwn yn fwy na'r hyn a welir yn genedlaethol erbyn hyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad gwan bechgyn mewn Saesneg, sydd bedwar pwynt canran yn is na pherfformiad bechgyn yng Nghymru. Nid yw perfformiad gan ddisgyblion mwy abl mor gryf, ac mae ychydig dros un o bob wyth disgybl yn cyflawni 5 gradd A* neu A mewn TGAU neu gyfwerth.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae deilliannau yn seiliedig ar asesiadau athrawon yn dangos bod perfformiad wedi gwella ar y cyfan ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, mae arfarniad yr awdurdod lleol ei hun o fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dangos bod safonau'n wan ar y cyfan.

Yn 2011, adroddodd Estyn fod perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn wan. Ers hynny, mae asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos gwelliannau da. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, er gwaethaf gwelliannau cymedrol, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni gradd C neu gymhwyster gwell mewn TGAU yn parhau yn isel.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae deilliannau yn seiliedig ar asesiadau athrawon wedi gostwng yn sylweddol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ymdrech yr awdurdod lleol i wella cywirdeb asesiadau athrawon mewn ysgolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, er bod asesiadau athrawon wedi cael eu hailraddnodi, mae safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn parhau'n wan.

Mae cyfran y bobl ifanc sy'n cael cymhwyster a achredir yn genedlaethol trwy wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol wedi gwella'n dda.

**Argymhelliad 2: Cymryd camau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH)**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2011, barnodd Estyn nad oedd niferoedd yr ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) cystal â chyfartaleddau Cymru, ac nid oeddent yn cymharu'n dda â chyfartaleddau awdurdodau tebyg eraill.

Yn 2013, barnodd Estyn fod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd araf o sylfaen isel iawn o ran lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nododd arolygwyr fod angen mwy o newid a chyflymdra i ysgogi gwelliannau pellach.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi gweithredu'n dda i flaenoriaethu'r argymhelliad hwn. Mae'r awdurdod, trwy'r arweinydd, y prif weithredwr a'r prif weithredwr cynorthwyol, wedi gwella'i ffocws ar bobl ifanc NACH yn fawr. O ganlyniad, gwnaed cynnydd cyflymach i leihau nifer y bobl ifanc NACH.

Mae canran yr ymadawyr Blwyddyn 11 NACH wedi lleihau ers yr ymweliad monitro yn 2013, o 5.5% yn 2012 i 2.2% yn 2014. Mae data nas gwiriwyd yn awgrymu gostyngiad bach pellach yn 2015. Mae hyn wedi symud yr awdurdod o fod ymhlith y gwaethaf yng Nghymru i fod yn well na chyfartaledd Cymru. O ganlyniad i weithio'n well gyda phartneriaid, mae'r awdurdod yn well yn nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r awdurdod lleol yn nodi'n briodol ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg trwy fodel pontio estynedig. Mae'r awdurdod yn defnyddio'r model hwn i fonitro cynnydd pobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl yn ystod y cyfnod pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael cymorth parhaus. Mae hyn wedi helpu i leihau cyfradd y gwaharddiadau ym Mlwyddyn 7. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae'r Dangosydd Risg NACH (RONI) yn galluogi'r awdurdod a'i bartneriaid i gasglu a dadansoddi data yn fwy effeithiol. Yn y sector ôl-16, mae'r awdurdod yn defnyddio data gan Gyrfa Cymru i nodi'n glir y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH.

O ganlyniad i'r nodi gwell hwn, mae'r awdurdod wedi gwella'r ffordd y mae'n cydlynu cymorth ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â gwella'r modd y mae'n olrhain pobl ifanc sy'n cael cymorth. Mae partneriaid yn sicrhau bod ystod dda o ymyriadau a llwybrau dilyniant addas ar gyfer pobl ifanc, trwy gydweithio effeithiol y Grŵp Llwybrau Cadarnhaol a'r Grŵp Cadw mewn Cysylltiad. Caiff y grwpiau hyn eu dwyn i gyfrif yn dda gan y Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc (BGPPhI).

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu cymalau cymdeithasol, sy'n cynnwys targedau recriwtio, fel rhan o gontractau sy'n cael eu dyfarnu gan yr awdurdod lleol, er enghraifft ar gyfer gwaith adeiladu. Mae'r cymalau hyn yn cynnwys datblygu 80 o gyfleoedd profiad gwaith a chyfweliadau gwarantedig ar gyfer swyddi gwag. Fodd

bynnag, ni chaiff y cymalau hyn eu monitro'n ddigon agos i allu dangos eu heffaith yn llawn.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu adroddiadau defnyddiol i'r BGPPhI bob chwe mis, sy'n amlygu cynnydd yn erbyn y dangosyddion deilliannau sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith partneriaeth.  At ei gilydd, ceir gweithio gwell mewn partneriaeth ymhlith y gwahanol asiantaethau sy'n cymryd rhan mewn cynorthwyo pobl ifanc NACH, neu'r rheiny mewn perygl o hynny.  O ganlyniad, caiff mwy o bobl ifanc gymorth da ac amserol i'w cadw mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd a chysondeb wrth arfarnu gwasanaethau i lywio'r cynllunio yn fwy effeithiol**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2011, barnodd Estyn fod gwella ansawdd yn ddigonol.  Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod diffyg manylion yn yr adroddiad hunanarfarnu, nid oedd yn cydnabod y cynnydd roedd yr awdurdod wedi'i wneud yn ddigon da, ac nid oedd yn nodi meysydd i'w gwella.  Yn ychwanegol, nid oedd hunanarfarnu'n gyson ar draws yr holl wasanaethau addysg.

Yn 2013, fe wnaeth Estyn fonitro cynnydd yr awdurdod yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu 2011, a barnodd nad aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Ers hynny, mae'r awdurdod wedi gwella'i drefniadau ar gyfer arfarnu ei berfformiad.  Mae swyddogion wedi sicrhau bod gan staff ac aelodau etholedig ddealltwriaeth well o ddata perfformiad, ac o ganlyniad, ceir dealltwriaeth gorfforaethol gliriach o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y gwasanaeth addysg.  Mae'r awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn well yn ei brosesau hunanarfarnu.  Er enghraifft, mae gan benaethiaid rôl well o ran nodi meysydd y mae angen eu gwella ac o ran cynllunio sut i ysgogi'r gwelliannau hyn.  O ganlyniad, mae'r berthynas weithio rhwng swyddogion ac ysgolion wedi gwella, ac fe geir dull ar y cyd o wella ansawdd erbyn hyn.  Er enghraifft, mae arfarnu asesiadau athrawon ar y cyd ym mhob sector wedi amlygu'r angen i wella'r broses hon a sicrhau bod asesiadau sy'n cael eu gwneud ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn gywir.  Yn dilyn y gwaith hwn, mae gan ysgolion, swyddogion ac aelodau etholedig ddarlun mwy realistig o berfformiad disgyblion.  Yn ychwanegol, mae nodi'r lefelau y mae disgyblion yn gweithio arnynt yn gywir yn galluogi ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i wella'u gwasanaethau a nodi ymyriadau mwy perthnasol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith i aildrefnu asesu ac nid yw pob ysgol yn cymryd rhan yn llawn yn y broses.  Mae uwch swyddogion ac aelodau wedi gwella'r system ar gyfer monitro arfarniadau tîm.  Mae hyn wedi arwain at her gynyddol, yn enwedig o amgylch y meini prawf llwyddiant a ddefnyddir i farnu'r cynnydd a wnaed.  Mae ymarfer peilot, yn cynnwys ymgynghorydd allanol, wedi bod yn ddefnyddiol o ran mireinio hunanarfarnu gwasanaethau.  O ganlyniad, defnyddir y broses hon yn awr i arfarnu'r holl gynlluniau gwasanaeth, gan helpu i ddod â chysondeb i hunanarfarnu ar draws yr awdurdod.

O ganlyniad i'r prosesau gwell hyn, mae'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn arfarniad agored a gonest o waith y gwasanaeth addysg. Mae'r adroddiad yn nodi nodweddion da a blaenoriaethau ar gyfer gwella yn gywir ar y cyfan. Mae swyddogion yn defnyddio'r wybodaeth o'r arfarniadau hyn yn effeithiol i ddatblygu cynlluniau gwella gyda ffocws clir ar wella deilliannau. Fodd bynnag, ni chaiff rhai meysydd o waith y gwasanaeth, fel ystod lawn dangosyddion perfformiad ysgolion uwchradd, eu harfarnu'n drylwyr. O ganlyniad, nid yw'r mesurau hyn yn cael eu cyflwyno fel blaenoriaethau mewn cynlluniau gwella ar gyfer y gwasanaeth addysg.

**Argymhelliad 4: Gwella perfformiad wrth reoli gwasanaethau i sicrhau dull cyson o gyflawni gwelliannau**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr ymweliad monitro yn 2013, mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda gyda'r bwrdd adfer i ysgogi newid sylweddol mewn rheoli perfformiad. O ganlyniad i ailstrwythuro diweddar ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth, mae gan yr awdurdod gapasiti gwell i reoli gwasanaethau addysg. Mae perthnasoedd gydag ysgolion wedi gwella, ac mae lefel yr ymddiriedaeth yn galluogi her ar y ddwy ochr erbyn hyn. Mae gan yr aelod gweithredol ar gyfer addysg broffil uwch gyda'r holl ysgolion a phartneriaid. Mae'r cyngor, ei ysgolion a'i bartneriaid yn rhannu atebolrwydd am ddeilliannau'r holl blant a phobl ifanc. Mae cynllun busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi mwy o eglurder am rolau a chyfrifoldebau priodol y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a'r awdurdod lleol erbyn hyn. Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau bod y cynllun busnes yn adlewyrchu'n fwy cywir y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y gwasanaeth addysg a swyddogaeth trosolwg a chraffu'r cyngor. Mae prif ymgynghorydd her yn arwain y tîm o ymgynghorwyr her sy'n gweithio gydag ysgolion yn Nhorfaen, ac mae'r awdurdod wedi penodi pennaeth dysgu y mae ei rôl yn cynnwys monitro ansawdd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae hyn wedi arwain at berthnasoedd gweithio gwell gydag ysgolion ac wedi cryfhau gallu'r awdurdod i ddwyn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyfrif. Mae gan uwch swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid ddealltwriaeth well o berfformiad ar draws gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro'i bortffolios craffu i gynyddu'r ffocws ar addysg. Mae hyn yn cynnwys is-bwyllgor i graffu ar berfformiad ysgolion unigol a'r cymorth a gaiff ysgolion gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a gwasanaeth addysg y cyngor. Mae aelodau'r pwyllgorau hyn wedi cael hyfforddiant effeithiol i herio perfformiad. O ganlyniad, maent wedi dod yn fwy gwybodus a medrus wrth ddadansoddi data perfformiad ysgolion, a gallant herio a dwyn gwasanaethau a swyddogion i gyfrif yn fwy effeithiol. Hyd yn hyn, mae pob ysgol uwchradd a phum ysgol gynradd wedi mynychu un o gyfarfodydd yr is-bwyllgor.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn fwy trylwyr ac wedi'u halinio'n well erbyn hyn trwy lefelau staff corfforaethol, gwasanaeth, uned a staff unigol. Mae gwaith i ymgorffori adolygiadau perfformiad unigol a sesiynau asesu perfformiad corfforaethol yn strwythur llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn mynd rhagddo'n dda. Mae adolygiadau perfformiad unigol yn sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth

well o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â blaenoriaethau'r awdurdod. Cynhelir sesiynau asesu perfformiad corfforaethol bob chwarter ac mae'r rhain yn sicrhau bod aelodau etholedig yn holi a herio swyddogion yn adeiladol i gyfiawnhau meysydd sy'n tanberfformio a nodi meysydd risg posibl. Mae'r sesiynau yn arwain at ddealltwriaeth well o'r materion allweddol sy'n wynebu'r cyngor a pherchenogaeth ar y cyd ar draws y cabinet, uwch arweinyddiaeth a swyddogion ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â meysydd pryder.

**Argymhelliad 5: Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer gwaith y PPPhI i sicrhau bod pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen yn cael ei reoli'n briodol**.

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2011, barnodd Estyn fod y gwaith partneriaeth strategol yn anfoddhaol. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd effaith gwaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddigon da, a dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd arfarniadau'r partneriaethau o'u perfformiad eu hunain. Nid oedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gwybod yn ddigon da am lwyddiannau neu ddiffygion ystod eang o weithgareddau partneriaeth. Roedd hyn yn golygu nad oeddent yn gallu cynllunio ar gyfer gwella neu flaenoriaethu camau gweithredu ac adnoddau yn ddigon da.

Yn 2013, fe wnaeth Estyn fonitro cynnydd yr awdurdod yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu 2011, a barnodd fod yr argymhelliad penodol hwn wedi cael ei fodloni'n rhannol. Ar yr adeg honno, nodwyd y blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn glir yng nghynllun drafft sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, 'Torfaen Gyda'n Gilydd' ('Torfaen Together'). Fodd bynnag, nid oedd yn glir pa mor dda y cynhaliwyd arfarniad strategol o'r modd y caiff camau gweithredu eu rhoi ar waith, na pha mor dda y datblygwyd cynlluniau ar gyfer gwella. Diddymwyd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, gan fod ei gweithgareddau wedi'u cynnwys yn y cynllun sengl.

Ers hynny, mae'r awdurdod wedi cydnabod bod angen ailsefydlu strwythur partneriaeth i oruchwylio cyflawni blaenoriaethau'r bwrdd gwasanaethau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, felly sefydlodd y BGPPhI. Mae gan y BGPPhI gylch gorchwyl clir ac addas. Ceir fframwaith partneriaeth cytûn sy'n cynnwys ystod briodol o ddangosyddion deilliannau ar gyfer pob un o'r saith nod craidd. Mae partneriaid yn gwneud defnydd da o offeryn monitro deilliannau defnyddiol i nodi ble mae perfformiad islaw disgwyliadau a chynllunio gwelliannau.

Mae'r aelod gweithredol ar gyfer addysg, y prif weithredwr a'r prif weithredwr cynorthwyol yn darparu arweinyddiaeth gref, ac mae eu hymglymiad yn dangos proffil uchel a phwysigrwydd y BGPPhI. Mae eu parodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau gonest yn helpu i sefydlu diwylliant adeiladol ac agored o fewn y BGPPhI. Mae pob un o'r partneriaid yn dangos ymrwymiad clir i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio gyda'i gilydd i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae strategaeth ymyrraeth gynnar ac atal y BGPPhI, 'Don't Walk On By', wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi

plant a phobl ifanc unigol a'u teuluoedd. Mae partneriaid yn mabwysiadu dull tîm o amgylch y teulu ar gyfer eu gwaith yn gyson. O ganlyniad, caiff cymorth ei gydlynu'n well a'i dargedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Mae deilliannau addysgol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r BGPPhI. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi eu rôl i fonitro cynnydd a darparu cyfarwyddyd a chymorth ychwanegol i sicrhau bod perfformiad ysgolion yn gwella. Mae partneriaid wedi gweithio'n agos â'r bwrdd adfer a'r gwasanaeth addysg i wella eu gwybodaeth am addysg yn Nhorfaen. Ceir dealltwriaeth dda o faterion allweddol, er enghraifft yr angen i sicrhau asesiadau athrawon cyson a gwella llythrennedd. Mae'r BGPPhI wedi helpu i gynnal ffocws ar welliant addysgol trwy ddiweddariadau ac adroddiadau rheolaidd gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae aelodau'r bwrdd wedi darparu her effeithiol trwy drafodaeth drylwyr.

**Argymhelliad ychwanegol: Gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio a chefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau ar gyfer pob dysgwr a'r rhai mewn ysgolion uwchradd yn benodol yn gyflym**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr ymweliad monitro llawn diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi gwella'i drefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion. Yn bwysig, mae newidiadau mewn swyddi allweddol o fewn y gwasanaeth addysg wedi arwain at berthnasoedd gweithio gwell o lawer gydag ysgolion. Mae hyn wedi galluogi cynnal trafodaethau agored a gonest ar draws yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â materion pwysig, fel dibynadwyedd asesiadau athrawon. Hefyd, caiff ysgolion eu cynnwys yn fwy mewn ffurfio a llunio polisïau gyda'r awdurdod lleol erbyn hyn.

Mae dealltwriaeth a defnydd swyddogion awdurdodau lleol o ddata perfformiad wedi gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn fwy effeithiol i flaenoriaethu gwaith yr awdurdod yn ogystal â monitro perfformiad ysgolion ac agweddau pwysig eraill, fel medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arfarniad o ddata perfformiad yr awdurdod lleol ar draws ei ysgolion uwchradd yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, nid yw'r awdurdod lleol wedi arfarnu agweddau pwysig fel perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio na'r perfformiad gan ddisgyblion mwy abl. Felly, nid yw'r awdurdod lleol a'i ysgolion yn gwbl ymwybodol o feysydd pwysig y mae angen eu gwella.

Ers yr ymweliad monitro yn 2013, mae'r awdurdod lleol wedi gwella'r ffordd y mae'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae trefniadau gwell ar waith erbyn hyn i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u comisiynu gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn bodloni anghenion yr awdurdod lleol. Yn ychwanegol, mae gan yr awdurdod lleol systemau ar waith i sicrhau ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud yn ei ysgolion. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn sicrhau ansawdd ac nid yw'r holl ddogfennau ar gael ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Hefyd, mae cymorth mewn meysydd blaenoriaeth fel llythrennedd a rhifedd wedi bod yn araf i wella medrau disgyblion yn y meysydd pwysig hyn.

Ers yr ymweliad monitro yn 2013, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar gyfran is na'r cyfartaledd o ysgolion ar ôl eu harolygiadau.  Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan yn cefnogi ysgolion i symud yn gyflym o gategori gweithgarwch dilynol.  Mae ansawdd yr adroddiadau a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol i Estyn cyn arolygiadau ysgol wedi gwella ar y cyfan ers yr ymweliad monitro diwethaf.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi un hysbysiad rhybudd statudol i ysgol gynradd ers yr ymweliad monitro yn 2013.  Yn dilyn y llythyr rhybudd, rhoddodd yr awdurdod lleol gymorth i'r ysgol, a arweiniodd at wneud gwelliannau.

**Argymhelliad ychwanegol: Gwella'r defnydd o fesurau deilliannau ar gyfer hunanarfarnu ac adrodd gan y gwasanaeth addysg, a chyrff partneriaeth, er mwyn cynllunio gwasanaethau'n well, i fonitro perfformiad yn fwy cywir, a dwyn gwasanaethau unigol i gyfrif yn fwy.**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2013, barnodd Estyn nad oedd y mesurau llwyddiant a ddefnyddir ar lefel gwasanaeth yn galluogi rheolwyr i ddangos yn ddigonol effaith eu camau gweithredu ar ddeilliannau gwasanaeth neu gyflawni ei flaenoriaethau.  O ganlyniad, rhoddodd Estyn argymhelliad ychwanegol i'r awdurdod am wella'r defnydd o fesurau deilliannau ar gyfer hunanarfarnu.

Ers hynny, gwneir defnydd mwy ffocysedig o fesurau deilliannau mewn dogfennau cynllunio ar draws y cyngor.  Mae Fframwaith Partneriaeth y BGPPhI yn cynnwys dangosyddion deilliannau perthnasol ar gyfer pob un o'i nodau craidd.  Yn ychwanegol, mae swyddogion wedi blaenoriaethu meysydd i'w gwella yng nghynllun y gwasanaeth addysg, ac mae'r rhain yn cynnwys mesurau olrhain allweddol.  O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gliriach o flaenoriaethau a chyrhaeddiad yn yr awdurdod, ac o ganlyniad, maent wedi gallu dwyn swyddogion i gyfrif yn fwy effeithiol.  Fodd bynnag, mae'r prosesau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ym mhob dangosydd perfformiad eto.

Mae'r sylwadau yn yr argymhellion eraill yn cyfrannu at ddangos y cynnydd boddhaol a wnaed gan yr awdurdod mewn perthynas â'r argymhelliad hwn hefyd.

**Darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ers yr ymweliad monitro yn 2013, comisiynodd yr awdurdod lleol adolygiad o'r holl ddarpariaeth ADY a gwnaeth argymhellion ar gyfer gwella.  Mae hyn wedi arwain at ailstrwythuro'r gwasanaeth ADY i gynnwys ffocws priodol ar grwpiau sy'n agored i niwed a phenodi swyddog cyswllt ADY ar gyfer pob ysgol.  Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo cyllid ADY i ysgolion, ac mae cydweithio agosach o lawer erbyn hyn rhwng yr ysgol arbennig ac ysgolion sydd â chanolfannau adnoddau anghenion arbennig.  Fodd bynnag, mae llawer o'r datblygiadau hyn wedi digwydd yn ddiweddar, ac mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith.

**Y camau nesaf**

Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol a wnaed gan yr awdurdod, mae nifer o feysydd pwysig a gafodd eu cwmpasu yn ein hadroddiad y mae angen eu gwella ymhellach. Dylai'r adroddiad ganolbwyntio ar arfarnu ei berfformiad yn erbyn ystod ehangach o ddangosyddion meincnod cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Dylai flaenoriaethu gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol hefyd.

Mae gwaith diweddar y bwrdd adfer wedi helpu i arwain yr awdurdod yn ei waith gwella, a dylai'r awdurdod ystyried ymgysylltu'n barhaus ag arbenigwyr allanol i sicrhau bod cyflymder y gwelliant yn parhau.

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol

cc Llywodraeth Cymru
Archwilydd Cyffredinol